Datgelu Gweledigaeth Gwerth £2bn ar gyfer Trafnidiaeth Caerdydd

YN Y RHIFYN HWN:

Gweledigaeth Caerdydd ar gyfer Trafnidiaeth
Arhoswch Gartref ac Achub Bywydau
Ymgynghoriad ar Ganllawiau Teithio Llesol
Esemptiadau MOT am 6 Mis
ROADPOL
Gohirio Cynhadledd
Ymgynghoriad e-Sgwteri
Croeso Nôl Gwenda

Mae Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth sydd wedi'i chynllunio i weddnewid rhwydwaith trafnidiaeth Caerdydd a'r De-ddwyrain. Mae Papur Gwyn y Cyngor ar Drafnidiaeth yn nodi cynllun 10-mlynedd uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd aer y brifddinas.

Mae'n rhestru cyfres o brosiectau a allai chwyldroi'r opsiynau o ran trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghaerdydd a'r rhanbarth, gan gynnwys:

- **Darparu llwybrau cerdded a llwybrau beicio mwy diogel**
- **Cynnig opsiynau gwirioneddol ynglŷn â theithio er mwyn cael pobl allan o'u ceir ac i mewn i drafnidiaeth gyhoeddus**
- **Ehangu cynlluniau presennol y Metro i ddarparu mwy o lwybrau tram/trên a gorsafoedd newydd yng Nghaerdydd a'r rhanbarth**
- **Cyflwyno gwasanaeth newydd Teithio Bws Cyflym a safle Parcio a Theithio**
- **Gostwng cost teithio ar fysiau yn sylweddol**



Er mwyn gwireddu'r weledigaeth bydd angen gwaith partneriaeth bwriadol gyda'r llywodraeth, Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid rhanbarthol eraill ond fe allai'r gost o £2bn gael ei hariannu'n rhannol gan gynllun i godi tâl dyddiol ar ddefnyddwyr y ffyrdd, a allai gynnwys esemptiad i drigolion Caerdydd, mae'r Cyngor wedi datgelu.

Dywedodd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, "Rwy'n falch o weld bod Cyngor Caerdydd yn meddwl ac yn cynllunio ar gyfer y tymor hir, gan greu strategaeth drafnidiaeth sy'n ceisio gwella iechyd a llesiant pobl Cymru. Rwy'n disgwyl gweld cyrff cyhoeddus eraill yn symud i'r un cyfeiriad â Chyngor Caerdydd ac yn gweithio i gyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."

Mae'r Cyngor yn dweud y gallai'r cynllun cywir wneud pedwar peth yr un pryd ac ar unwaith:

- **Mynd i'r afael â newid hinsawdd**
- **Lleihau tagfeydd**
- **Gwella ansawdd aer**
- **Darparu cyllid wedi'i glustnodi i'w fuddsoddi mewn mentrau trafnidiaeth gyhoeddus y mae angen mawr amdanyn nhw.**

Rhagor o wybodaeth yma.

Arhoswch Gartref ac Achub Bywydau

Mae cyfyngiadau i atal Coronafeirws rhag lledaenu ar waith erbyn hyn ac mae'n hanfodol bod y cyhoedd yn cydymffurfio er mwyn mynd i'r afael â lledaeniad y feirws.

O dan y cyfyngiadau newydd ar symud, ni chaiff y cyhoedd adael eu tŷ heblaw er mwyn:

- **Siopa am hanfodion, a hynny mor anaml ag y bo modd**
- **Derbyn triniaeth feddygol neu roi gofal**
- **Teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, os nad oes modd gweithio gartref**
- **Ymarfer corff y tu allan unwaith y dydd, ar eich pen eich hun neu gydag aelodau'r aelwyd**

Nawr yn fwy nag erioed, mae'n rhaid i'r cyhoedd ddilyn cyngor y llywodraeth ynglŷn â chyfyngu symud. Arhoswch gartref a phan fydd rhaid symud yn yr awyr agored, cadwch at arferion saff diogelwch ar y ffyrdd, er mwyn lleihau unrhyw straen pellach ar wasanaethau'r GIG a'r gwasanaethau brys sydd eisoes o dan bwysau.

Yr amcan yw cyfyngu ar bob math o deithio ac osgoi'r Y 5 Angheuol - pum prif achos gwrthdrawiadau ac anafiadau ar ffyrdd Cymru.

Aros gartref = Arbed bywydau. Chwaraewch eich rhan i guro'r feirws.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ganllawiau Teithio Llesol

Roedd pasio Deddf Teithio Llesol (Cymru) yn 2013 yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i sicrhau mai cerdded a beicio fyddai'r dewis diofyn ar gyfer siwrneiau lleol bob dydd.

Bernid bod y Canllawiau Dylunio a gyhoeddwyd yn 2014 yn torri tir newydd ac maen nhw wedi'u hefelychu mewn mannau eraill. Mae'n amser eu diweddaru bellach i adlewyrchu'r arferion gorau yn rhyngwladol, ac i achub ar y cyfle i adolygu'r Canllawiau Cyflawni y mae partneriaid Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio yn unol â nhw dros y chwe blynedd diwethaf.

Gan hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ymgynghoriad yn ddiweddar ar ei Chanllawiau Teithio Llesol diwygiedig, sy'n cyfuno:

- **Canllawiau cyflawni a chanllawiau cynllunio Teithio Llesol**
- **Canllawiau dylunio Teithio Llesol**
- **Mae'r canllawiau diwygiedig yn ategu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac yn bwriadu:**
- **Gwella'r cydweithio rhwng cynllunwyr a dylunwyr**
- **Cymryd newidiadau yn y rheoliadau i ystyriaeth**
- **Adlewyrchu'r arferion gorau cyfredol**

Mae'r ymgynghoriad a'r dogfennau cysylltiedig ar gael yma. Mae croeso i ymatebion ar-lein, neu drwy'r ebost erbyn 8 Mai 2020.

Caniatáu Esemptiadau MOT yn ystod y Coronafeirws



Mae perchnogion cerbydau wedi cael esemptiad o chwe mis rhag cael profion MOT ar eu cerbydau, i'w galluogi i barhau i deithio i'r gwaith os nad oes modd gwneud hyn o'r cartref, neu i siopa am hanfodion.

Bydd yr holl geir, faniau a beiciau modur y byddai angen prawf MOT arnynt fel arfer yn cael eu hesemptio rhag gorfod cael prawf o 30 Mawrth 2020 ymlaen.

Mae'n rhaid ichi gadw'r cerbydau mewn cyflwr sy'n addas i fod ar y ffordd, a bydd modurdai'n aros ar agor i wneud gwaith trwsio hanfodol. Gall gyrwyr gael eu herlyn os ydynt yn gyrru cerbydau anniogel, o bosibl yn wynebu dirwy o hyd at £2,500, pwyntiau cosb a gwaharddiad posibl ar yrru.

Mae cyngor ar gadw cerbyd mewn cyflwr da ar gael yma.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth Grant Shapps, "Mae'n rhaid inni sicrhau bod y rhai sydd yn y rheng flaen o ran helpu'r genedl i frwydro yn erbyn COVID19 yn gallu gwneud hynny.

"Bydd caniatáu'r esemptiad hwn dros dro rhag profi cerbydau yn fodd i wasanaethau hanfodol megis dosbarthu nwyddau barhau, i weithwyr rheng flaen gyrraedd y gwaith, ac i bobl gael bwyd a meddyginiaeth hanfodol.

"Mae diogelwch yn allweddol, a dyna pam y bydd modurdai'n aros ar agor i wneud gwaith trwsio hanfodol."

Mae profion gyrru ymarferol a phrofion blynyddol i lorïau, bysiau a choetsys wedi'u hatal am hyd at dri mis.

Tispol yn ail-frandio fel ROADPOL

Mae Tispol, y rhwydwaith o heddluoedd traffig Ewrop wedi ail-frandio fel Roadpol - Rhwydwaith Plismona Ffyrdd Ewrop. Mae'r rhwydwaith wedi cyhoeddi datganiad yn dweud y bydd yn dal i roi ei egni i wneud ffyrdd Ewrop yn fwy diogel, ac y bydd ei genhadaeth yn dal yr un fath: "Croesi ffiniau i achub bywydau."

Bydd y prosiect adnabyddus "EDWARD" hefyd yn parhau ac yn cael ei ail-frandio ag enw hunanesboniadol, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Ewch i'r wefan newydd yma: www.roadpol.eu

Gohirio Cynhadledd

Oherwydd y pandemig COVID-19 presennol, mae Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru, a drefnwyd ar gyfer dydd Iau 21 Mai 2020, wedi'i gohirio.

Bydd trefniadau newydd yn cael eu cyhoeddi'n nes ymlaen a hynny drwy gyfrwng y wefan www.diogelwchffyrddcymru.org.uk

Ymgynghoriad y Llywodraeth ar e-Sgwteri

Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) wrthi'n ymgynghori ar ba reolau sy'n ofynnol i ganiatáu i e-sgwteri gael eu cyfreithloni i'w defnyddio ar ffyrdd y Deyrnas Unedig.

Er eu bod eisoes yn fath poblogaidd o drafnidiaeth mewn llawer o ddinasoedd ledled y byd, mae'n anghyfreithlon eu defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus a phalmentydd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â chyfres o feysydd sy'n ymwneud â defnyddio e-sgwteri'n ddiogel, gan gynnwys oedran isaf ar gyfer defnyddwyr, cyfyngiadau cyflymder, trwyddedau, yswiriant a helmedau.

Mae pynciau eraill yn cynnwys safonau dylunio gofynnol, a ddylid eu caniatáu mewn lonydd beicio, a pha bwerau y dylai'r awdurdodau lleol eu cael i reoli cwmnïau llogi e-sgwteri.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Trafnidiaeth, Grant Shapps, fod y Deyrnas Unedig ar fin chwyldro mewn trafnidiaeth gan fod technolegau sy'n dod i'r amlwg yn torri tir newydd.

"Ein rhaglen arloesol ni, Dyfodol Trafnidiaeth, yw'r adolygiad mwyaf o ddeddfau trafnidiaeth mewn cenhedlaeth a bydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer profi technoleg drafnidiaeth newydd gyffrous, gan atgyfnerthu safle'r Deyrnas Unedig fel arloeswr o'r radd flaenaf yn y byd.

"Bydd yr adolygiad hwn yn sicrhau ein bod yn deall effeithiau posibl amrywiaeth eang o fathau o drafnidiaeth newydd fel e-sgwteri, gan helpu i lywio unrhyw benderfyniadau ar gyfreithloni'r rhain yn briodol."

I ymateb i'r ymgynghoriad, cliciwch yma.

Croeso Nôl Gwenda

Ar ôl cyfnod byr yn gweithio mewn gwleidyddiaeth, mae Gwenda Owen yn falch iawn o fod yn ôl ym myd seiclo fel Swyddog Ymgysylltu yng Nghymru i Cycling UK.

Bydd llawer o bartneriaid Diogelwch Ffyrdd Cymru eisoes yn gyfarwydd â Gwenda ac yn falch o weld ei bod yn dychwelyd i'r rôl bwysig hon i Gymru.

"Fel mae rhai ohonoch yn gwybod efallai, dechreues i weithio i Cycling UK bron 10 mlynedd yn ôl ar brosiect hyfforddiant beicio, ac yn fuan wedyn ces i fy ethol yn ymddiriedolwr a chynghorydd yn cynrychioli Cymru. Roeddwn i wedi bod yn aelod am gyfnod cyn dechrau yn y rôl honno ac rwyf wedi bod yn reidio beic o ran pleser yn ogystal ag i fod yn ymarferol ers pan oeddwn i'n blentyn.

"Er fy mod i wedi fy lleoli yng Nghaerdydd, rwy'n edrych ymlaen at reidio fy meic (a dal trên ambell waith) o amgylch Cymru, gan weithio gydag aelodau a rhanddeiliaid i sicrhau bod pawb sy'n dymuno yn gallu beicio."

Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael yn www.cyclinguk.org